Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bwletin y Pwyllgor

Croeso i fwletin Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar gyfer y tymor hwn. Ynddo fe welwch grynodeb o weithgareddau diweddar y Pwyllgor, gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth am ein hadolygiadau o gaffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol, mynediad at fancio, datgarboneiddio trafnidiaeth, gwefru cerbydau trydan, rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladwyr tai, a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae ychydig o wybodaeth am ein blaenraglen waith yma hefyd. Lluniwyd y bwletin gan y tîm Clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor. Gobeithio y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi fel ffordd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac fel cyfrwng ar gyfer ymgysylltu â ni.

Mae llif Twitter y Pwyllgor **@SeneddESS** yn cynnwys ein holl newyddion, a manylion am ein hymchwiliadau a'n cyfarfodydd diweddaraf.

Gwaith a gyflawnwyd - tymor yr Hydref 2019

Caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol

Cynhaliodd y Pwyllgor **ymchwiliad** i rôl caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol. Yn ddiweddar, nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gynyddu caffael cyhoeddus fel rhan o ymgyrch i 'greu cadwyni cyflenwi lleol mwy cadarn a chreu cyfoeth mewn cymunedau ar draws Cymru'. Cawsom 22 o ymatebion i'n hymgynghoriad a chynhaliwyd 6 sesiwn dystiolaeth. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad yn y Flwyddyn Newydd.

Mynediad at Fancio

Yn dilyn casgliad **ymchwiliad** i effaith cau canghennau banc a cholli peiriannau ATM ar unigolion, busnesau a chymunedau, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** ar 17 Hydref, ac roedd yn cynnwys 14 o argymhellion, ac roedd **Ffeithlun** yn cyd-fynd ag ef. **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru i'r adroddiad. Arweiniodd Russell George, Cadeirydd y Pwyllgor, ddadl ar yr adroddiad yn Siambr y Senedd ar 11 Rhagfyr. Mae modd gweld fideo o'r ddadl ar **Senedd.tv.**

Datgarboneiddio trafnidiaeth

Lansiodd y Pwyllgor **ymchwiliad** oedd â'r nod o ddylanwadu ar ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ddiwygiedig Llywodraeth Cymru, sydd i gael ei chyhoeddi yn 2020. Bydd y strategaeth yn cynnwys ffocws allweddol ar newid i ddulliau trafnidiaeth carbon is i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a lleihau nifer cynyddol yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Clywyd tystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad gan amrywiaeth o randdeiliaid, i edrych yn fanwl ar a yw targedau, polisïau a chynigion ar gyfer lleihau allyriadau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gyraeddadwy ac yn ddigon uchelgeisiol, ac a yw'r weledigaeth ar gyfer datgarboneiddio yn

ddigon arloesol. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad yn y Flwyddyn Newydd.

Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Cymru

Ar 3 Hydref, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** oedd yn cynnwys 8 o argymhellion. **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd.

Rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladwyr tai

Yn ystod **ymchwiliad** yn gynharach eleni bu'r Pwyllgor yn holi'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn fanwl, a bydd yn cyflwyno adroddiad yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Taliadau cadw yn y sector adeiladu

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid, ym mis Hydref, i drafod **taliadau cadw yn y sector adeiladu**. Penderfynodd y ddau bwyllgor edrych ymhellach ar y mater, a byddant yn cynnal sesiwn arall ar y cyd yn y flwyddyn newydd.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Yn dilyn yr ymchwiliad ym mis Mai, pan fu'r Pwyllgor yn holi Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Addysg, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad**, a oedd yn cynnwys dau o argymhellion manwl i newid cyfeiriad, ar 10 Hydref. Ar ôl cael **ymateb** y Llywodraeth, arweiniodd Cadeirydd y Pwyllgor **ddadl** ar ei adroddiad yn Siambr y Senedd ar 4 Rhagfyr. Yn ystod y ddadl hon, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ail-ystyried rhai o'r ymatebion a wrthodwyd i ddechrau. Mae modd gweld fideo o'r **ddadl** ar **Senedd.tv.**

- Russell George AC yn siarad â myfyrwyr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

Edrych tua'r dyfodol

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion blaenraglen waith y Pwyllgor. Sylwch mai blaenraglen dros dro yw hon, a gall newid yn unol â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenraglen waith y Pwyllgor ar gael ar ein tudalen ar wefan y Pwyllgor **yma.**

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Yn ei gyfarfod cyntaf yn y flwyddyn newydd, sef ar 9 Ionawr, bydd y Pwyllgor yn holi'n fanwl Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Bargeinion Twf Dinesig a Bargeinion Twf Rhanbarthol - Diweddariad

Bydd y Pwyllgor yn cael rhagor o ddiweddariadau ar y cynnydd a wnaed o ran y pedair Bargen Twf Dinesig a Rhanbarthol yn y flwyddyn newydd.

Trafnidiaeth

Bydd y Pwyllgor yn craffu ar Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys trafnidiaeth reilffordd ynghyd â chylch gwaith ehangach Trafnidiaeth Cymru, ac yn cynnal sesiwn graffu eang ar drafnidiaeth gyda Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn y flwyddyn newydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cynnal sesiwn ragarweiniol gyda'r Arglwydd Burns, cadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru.

Rydym hefyd yn aros i Lywodraeth Cymru gyflwyno **Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus a fydd yn canolbwyntio ar ddiwygio bysiau**.

Gradd-brentisiaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £20 miliwn i gynllun peilot tair blynedd o ran prentisiaethau gradd, yn y maes Digidol, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch ar hyn o bryd. Bydd **ymchwiliad** y Pwyllgor yn edrych yn fanwl ar y rhesymeg dros brentisiaethau gradd, y broses a'r meini prawf ar gyfer eu cymeradwyo, y galw gan gyflogwyr a dysgwyr, ac ar sut y cânt eu rheoli, sef materion cyllido ac ati. Bydd hefyd yn edrych ar recriwtio prentisiaid gradd, a nodweddion personol y carfanau hyd yma, i werthuso i ba raddau y maent hefyd yn adlewyrchu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch, ac uchelgeisiau cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau.

Bydd yr ymchwiliad hefyd yn edrych ar ymgysylltu â chyflogwyr, ac yn ceisio gofyn barn ar gyfeiriad a photensial prentisiaethau gradd yn y dyfodol.

Ymweliadau

Ers i ni ysgrifennu ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi bod ar ddau ymweliad. Ar 25 Medi, yn sgîl gwahoddiad gan Drafnidiaeth Cymru, ymwelodd yr Aelodau â Depo Rheilffordd Treganna i weld paratoadau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer yr hydref.

- Aelodau'r Pwyllgor yn y Depo Trafnidiaeth Cymru yn Nhreganna, Caerdydd

Ar 5 Rhagfyr bu'r Pwyllgor yn ymweld â '**Super Computing Wales'** yn yr Adeilad Redwood ym Mhrifysgol Caerdydd. Dangoswyd "Hawk" uwch gyfrifiadurol Prifysgol Caerdydd i'r Aelodau yno.

Cyfarfu'r Aelodau hefyd â rhai academyddion a roddodd eglurhad ar eu gwaith, a sut y maent yn defnyddio'r uwch gyfrifiadur i wneud camau breision o ran arloesedd ac ymchwil.

- Aelodau'r Pwyllgor gyda "Hawk" yn cael taith dywys gan yr Athro Roger Whitaker

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Tîm

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Gareth Price ac Amy Knox sydd wedi ymadael a'r tîm. Mae Gareth yn dal i fod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae nawr yn Bennaeth Cyfathrebu Dros Dro, ac mae Amy wedi dychwelyd i brifysgol Warwick i ddilyn cwrs gradd Meistr. Hoffem hefyd groesawu Robert Donovan, sydd wedi dechrau gweithio fel Clerc, ac wedi dod i'r Cynulliad o'r Groes Goch, a hefyd Jonathan Smith, ein Swyddog Cymorth Pwyllgor newydd sydd ar secondiad o adran TG y Cynulliad.

Diolch

Hoffai Aelodau'r Pwyllgor a'r tîm clercio fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor dros dymor yr hydref, yn enwedig y rhai ohonoch sydd wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig, neu sydd wedi dod atom ar gyfer sesiwn dystiolaeth, a phawb sy'n dilyn gwaith y Pwyllgor. Gobeithio y cewch Nadolig gwych ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y Flwyddyn Newydd.

Cylch gwaith

Cafodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Cytunodd y Cynulliad i leihau maint y Pwyllgorau ym mis Mehefin 2019 – bellach, mae gan y Pwyllgor hwn chwech o Aelodau.

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â'r tîm clercio drwy e-bost: **SeneddESS@Cynulliad.Cymru**

Ffoniwch ni: **0300 200 6565**

Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddESS**

Gwefan: **www.cynulliad.cymru/seneddESS**

Aelodau'r Pwyllgor

Cadeirydd y Pwyllgor:
Russell George AC
Ceidwadwyr Cymreig

Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig

Hefin David AC
Llafur Cymru

Vikki Howells AC
Llafur Cymru

Bethan Sayed AC
Plaid Cymru

Joyce Watson AC
Llafur Cymru